



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person



ADRAN 1: MANYLION SWYDD

Teitl Swydd:	Swyddog Adnoddau Dysgu Digidol
Cyfarwyddiaeth:	Casgliadau, Ymgysylltu ac Ymchwil
Adran:	Ymgysylltu a Chynnwys Digidol
Isadran:	Dysgu ac Ymgysylltu
Gradd:	3
Cyflog:	£23,157 - £28,176
Cytundeb:	2 flynedd
Yn adrodd i:	Rheolwr y Gwasanaeth Addysg

Pwrpas cyffredinol y rôl: Cynllunio, arwain a chyflawni gwaith ar gyfer cyhoeddi adnoddau dysgu digidol ar Hwb a llwyfannau eraill. Gweithredu fel prif bwynt cyswllt rhwng y Llyfrgell a Hwb ar faterion ymarferol. Cydweithio gyda swyddogion dysgu cyrff treftadaeth cenedlaethol eraill ar adnoddau dysgu digidol, yn benodol Amgueddfa Cymru, CADW a'r Comisiwn Brenhinol. Cyfrannu at waith arall y Gwasanaeth Addysg yn ddigidol, yn y Llyfrgell ac yn allanol.

ADRAN 2: YR ADRAN

Y Gyfarwyddiaeth Casgliadau ac Ymgysylltu sy'n bennaf gyfrifol am gasglu, diogelu a rhoi mynediad i'r casgliadau sydd yng ngofal y Llyfrgell yn unol â'i swyddogaethau craidd. Yn y cyd-destun hwn mae mynediad yn golygu amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys gwasanaethau a gweithgareddau ar y safle, ar-lein ac mewn cymunedau ledled Cymru. Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth yn rhan greiddiol o wireddu gweledigaeth y Llyfrgell i fod yn sefydliad sy'n:


"...gwneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol ac i fod yn lyfrgell genedlaethol, agored, blaengar ac arloesol."

Trwy ei gwaith mae angen i'r Gyfarwyddiaeth alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion strategol a llesiant sef:

1. Meithrin a gofalu am gof y genedl
2. Gosod sylfaen economi gwybodaeth
3. Bod yn ganolog i fywyd y genedl
4. Grymuso Ymchwil a Dysg

Mae casgliadau'r Llyfrgell yn cynnwys llyfrau, papurau newydd, mapiau, archifau a llawysgrifau, ynghyd â lluniau, ffotograffau, deunydd clywedol, gwefannau a chynnwys digidol o bob math. Ynghyd â'r casgliadau, mae sgiliau ac arbenigedd staff y Gyfarwyddiaeth hon yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y Llyfrgell yn gallu datgloi potensial y casgliadau hyn i gyfoethogi a gwella bywydau pobl Cymru a thu hwnt.

ADRAN 3: SIART DREFNIADOL



ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Cynllunio rhaglen i gyhoeddi adnoddau dysgu digidol sy'n ateb gofynion y Cwricwlwm i Gymru ar themâu amrywiol;
- Ymchwilio, paratoi a darparu adnoddau dysgu digidol ar gyfer ystod eang o oeddrannau;
- Cydweithio gyda staff arbenigol a churaduron er mwyn canfod eitemau allai fod o ddefnydd addysgiadol, a threfnu rhaglen i ddigido'r rhain;

- Treialu cynnwys, technoleg a dulliau cyflwyno gwybodaeth gyda disgyblion ac athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd;
- Sicrhau bod yr adnoddau yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm i Gymru o ran cynnwys a sgiliau;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r adnoddau dysgu trwy rwydweithiau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, myfyrwyr TAR a myfyrwyr Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, Eisteddfod yr Urdd, y prif undebau athrawon, mewn digwyddiadau ac ar y cyfryngau cymdeithasol;
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt rhwng y Llyfrgell a Hwb ar faterion gweinyddol, ac arwain y broses o gyhoeddi deunyddiau dysgu digidol y Llyfrgell ar Hwb a llwyfannau eraill;
- Cydweithio gyda swyddogion dysgu cyrff treftadaeth cenedlaethol ar adnoddau dysgu digidol, yn benodol Amgueddfa Cymru, CADW a'r Comisiwn Brenhinol, a chyfrannu at y Grŵp Dysgu ar Draws y Sector;
- Cynnal ystadegau defnydd ar gyfer adnoddau dysgu digidol sy'n cael eu cyhoeddi ar Hwb ac mewn manau eraill;
- Sicrhau fod adnoddau dysgu digidol y Llyfrgell yn cynrychioli pob agwedd o fywyd a hanes Cymru, yn arbennig grwpiau, unigolion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli;
- Cefnogi gweithgareddau eraill Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell yn ôl y galw, gan gynnwys ymweliadau a digwyddiadau yn y Llyfrgell ac yn allanol;
- Meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o ddeddfwriaeth gwarchod data a rhyddid gwybodaeth.
- Gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ôl y galw, ac ar draws Cymru i gefnogi gwaith y Gwasanaeth Addysg pan bod angen.

Darperir y Disgrifiad Swydd hwn er mwyn rhoi amlinelliad bras i ddeiliad y swydd o'r gweithgareddau sydd ymhlyg yn y rôl hon. Dichon y bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cynnwys yn y Disgrifiad Swydd ond sydd yn gymesur â graddfa'r swydd. Gellir diwygio'r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn i ffin a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.

ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

- Cyfrifoldeb dros ymchwilio casgliadau yn annibynnol
- Cyfrifoldeb dros gyhoeddi adnoddau
- Cyfrifoldeb dros sicrhau bod adnoddau dysgu digidol y Llyfrgell yn diwallu anghenion cymunedau a grwpiau gwahanol
- Cyfrifoldeb dros gynrychioli'r Llyfrgell mewn rhwydweithiau perthnasol

ADRAN 6: CYSYLLTIADAU GYDAG ERAILL

Mewnol	Natur y cysylltiad
Rheolwr Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell, Rheolwr Is-adran, staff eraill y Gwasanaeth	Cydweithio dyddiol a chyfarfodydd tîm, trafod cynnydd a thargedau
Staff casgliadau a churaduron	Cydweithio cyson, rhannu gwybodaeth, trafod deunyddiau dysgu
Staff Technoleg y Llyfrgell	Cyngor wrth dreialu technolegau newydd ar gyfer dysgu
Allanol	
Staff dysgu Amgueddfa Cymru, CADW a'r Comisiwn Brenhinol	Cydweithio ar adnoddau dysgu
Staff technegol Hwb	Trafod materion technegol a gweinyddol, cyhoeddi ayb.
Athrawon a staff addysg broffesiynol	Ceisio adborth, treialu a hyrwyddo
Cynrychiolwyr sefydliadau a mudiadau allanol	Trafod prosiectau dysgu digidol a chydweithio

ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

- Problemau capasiti a disgwyliadau uchel
- Problemau ymarferol sy'n codi o weithio ar draws y sefydliad a gyda sefydliadau allanol
- Dod o hyd i ddeunyddiau addas ar gyfer adnoddau dysgu
- Problemau technegol gyda chyflwyno deunyddiau dysgu ar-lein

ADRAN 8: PENDERFYNU

- Blaenoriaethu pa adnoddau i'w cyhoeddi, a phryd
- Blaenoriaethu amser i ateb targedau rhaglen gyhoeddi
- Sut i ymchwilio gael y defnydd gorau o amser staff eraill sy'n cynorthwyo gydag ymchwilio adnoddau dysgu digidol
- Penderfynu pa mor addas yw cynnwys ar gyfer adnoddau dysgu
- Pryd i gysylltu â rheolwyr neu staff arbenigol

ADRAN 9: MANYLEB PERSON

PRIODOLEDD	HANFODOL	DYMUNOL
Gwybodaeth / Addysg	<p>Safon addysg dda.</p> <p>Gwybodaeth am hanes a diwylliant Cymru</p> <p>Gwybodaeth am adnoddau dysgu digidol</p> <p>Sgiliau TGCh da, a pharodrwydd i ddysgu.</p> <p>Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Sgiliau rhyngpersonol da</p>	<p>Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru</p> <p>Hyderus wrth ddefnyddio meddalwedd golygu fideo.</p>
Profiad	<p>Gweithio gyda phlant a phobl ifanc</p> <p>Ymchwilio a pharatoi testun clir a chryno</p> <p>Cynllunio gwaith, gosod targedau a chyflawni</p> <p>Gweithio'n hyblyg a chyfrannu'n greadigol at waith eraill</p> <p>Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm</p>	<p>Profiad o baratoi deunyddiau dysgu</p>